


Fframwaith Rheoli Perfformiad

Adolygwyd 2017



Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Un Cyngor yn Cydweithio i Wella Bywydau

Rhagair

Mae'n bleser gennyf lansio Fframwaith Rheoli Perfformiad diwygiedig y Cyngor.

Mae'r Cyngor hwn mewn sefyllfa unigryw i ddod â'i wasanaethau ei hun ynghyd â gwaith asiantaethau eraill, cymunedau, teuluoedd ac unigolion er budd pobl y sir. Rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid i ni wneud newidiadau sylweddol i'n ffordd o feddwl a gweithredu er mwyn ateb yr heriau sylweddol y bydd ein cymunedau yn eu hwynebu – gan gynnwys galw cynyddol ar lawer o'n gwasanaethau, a hynny yng nghyd-destun cyllideb sy'n lleihau ac ansicrwydd economaidd.

Bydd gwireddu ein gweledigaeth yn dibynnu ar rannu dirnadaeth rhwng bob un ohonom o'n blaenoriaethau corfforaethol a'n hymrwymiaadau statudol, yn ogystal â'n swyddogaethau a'n cyfrifoldebau unigol o ran eu cyflawni.

Mae'r fframwaith hwn, a luniwyd i bawb sydd ynghlwm wrth gyflawni'r canlyniadau yr ydym ni'n dymuno eu cyflawni, yn nodi ein dull systematig o reoli perfformiad, gan gysylltu darpariaeth gwasanaethau â'n gweledigaeth a'n blaenoriaethau. Mae'n nodi cyfrifoldeb ac atebolrwydd am bob cam o broses rheoli perfformiad y Cyngor, gan gynnwys cynllunio busnes, darparu gwasanaethau, adolygu perfformiad a gwneud unrhyw newidiadau a allai fod yn angenrheidiol.

Cymeradwyaf y fframwaith hwn i chi. Ei fwriad yw ein helpu i gynllunio, gweithredu, adolygu a diwygio ein gwaith yn barhaus er mwyn i ni allu gwella bywydau yn llwyddiannus yn y fwrdeistref sirol, drwy gydweithio ag eraill.

Darren Mephram

Prif Weithredwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cynnwys

| | |
|---|---|
| 1. Diffinio Rheoli Perfformiad..... | 4 |
| 1.1 Diffiniad | 4 |
| 1.2 Pam mae Rheoli Perfformiad yn Bwysig i Ni?..... | 4 |
| 1.3 Y Dull o Reoli Perfformiad..... | 4 |
| 2. Cynllunio | 4 |
| 2.1 Y Cynllun Corfforaethol | 4 |
| 2.2 Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig..... | 4 |
| 2.3 Cynlluniau Rhaglen a Phrosiect | 5 |
| 2.4 Cynlluniau Busnes Cyfarwyddiaeth | 5 |
| 2.5 Cynlluniau Cyflawni Gwasanaeth a Grŵp..... | 5 |
| 2.6 Cynlluniau Unigol (Arfarniadau Staff)..... | 5 |
| 3. Gwneud – Gweithredu a Monitro Ein Cynlluniau..... | 6 |
| 3.1 Y Cynllun Corfforaethol, Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a’r Rhaglen Weddnewid | 6 |
| 3.2 Cynlluniau Cyfarwyddiaeth/Gwasanaeth/Unigol | 6 |
| 4. Adolygu | 7 |
| 4.1 Asesiad o Berfformiad Corfforaethol..... | 7 |
| 4.2 Proses Graffu y Pwyllgor(au) Goruchwyllo a Chraffu | 7 |
| 4.3 Adolygu Rhaglenni a Phrosiectau | 7 |
| 4.4 Adolygu Perfformiad Cyfarwyddiaethau | 7 |
| 4.5 Adolygu Perfformiad Gwasanaethau/Grwpiau/Unigolion | 7 |
| 5. Diwygio – Chwilio am Ddewisiadau o ran yr hyn y Gallai fod Angen ei Newid | 8 |
| 6. Cydweithredu a Chomisiynu..... | 8 |
| 6.1 Gweithio gyda’n Partneriaid | 8 |
| 6.2 Comisiynu | 8 |
| Cysylltu | 8 |

1. Diffinio Rheoli Perfformiad

1.1 Diffiniad

Diffinnir rheoli perfformiad fel gweithredu mewn ymateb i berfformiadau gwirioneddol er mwyn gwneud canlyniadau i ddefnyddwyr a'r cyhoedd yn well nag y byddent fel arall. (Ffynhonnell: Yr Asiantaeth Gwella a Datblygu).

1.2 Pam mae Rheoli Perfformiad yn Bwysig i Ni?

Mae rheoli perfformiad yn bwysig oherwydd ei fod yn ein galluogi i:

- asesu anghenion byrdymor a chynaliadwyedd hirdymor;
- blaenoriaethu yr hyn y mae angen ei wneud o fewn yr adnoddau sydd ar gael;
- sicrhau ein bod yn darparu gwerth am arian;
- ysgogi ac ymgysylltu â staff a neilltuo atebolrwydd;
- nodi a gwella perfformiad gwael ar gam cynnar;
- dysgu o berfformiad yn y gorffennol a gwella perfformiad yn y dyfodol; a
- chynyddu bodlonrwydd y cyhoedd.

1.3 Dull o Reoli Perfformiad

Rydym yn defnyddio dull systematig o reoli perfformiad, sy'n dilyn y cylch '**cynllunio-gwneud-adolygu-diwygio**' a gydnabyddir gan y diwydiant.

2. Cynllunio

Mae cynllunio effeithiol yn hollbwysig i lwyddiant. Mae'n llywio'r broses o wneud penderfyniadau. Mae hefyd yn ofyniad ar gyfer monitro perfformiad.

2.1 Y Cynllun Corfforaethol

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn nodi gweledigaeth, blaenoriaethau (sef amcanion gwella a llesiant y Cyngor), canlyniadau a mesurau llwyddiant. Mae hefyd yn amlinellu rhaglenni, ymrwymadau ac adnoddau corfforaethol a gaiff eu nodi i gefnogi cyflawniad y Cynllun.

Y Prif Weithredwr a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol, gan roi ystyriaeth i'r egwyddor datblygiad cynaliadwy a'r pum dull o weithio y mae'r egwyddor wedi'u diffinio.

Mae'r Pwyllgor Goruchwylio a Chraffu Corfforaethol yn craffu ar y Cynllun, mae'r Cabinet yn ei ardystio ac mae'r Cyngor yn ei gymeradwyo.

2.2 Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn darparu fframwaith cynllunio ac ariannol integredig ar gyfer y pedair blynedd nesaf, gan gynnwys y strategaeth gyllideb fanwl ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r gyllideb refeniw flynyddol a'r blaengynllunio ariannol, ynghyd â'r rhaglen gyfalaf, yn galluogi'r Cyngor i gyfateb ei adnoddau ariannol i'w flaenoriaethau.

Pennaeth yr Adran Gyllid (Swyddog 151) sy'n gyfrifol am ddatblygu'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig er mwyn sicrhau bod y Strategaeth yn cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor a sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Pwyllgor Goruchwylio a Chraffu Corfforaethol yn craffu ar y Strategaeth, mae'r Cabinet yn ei hardystio ac mae'r Cyngor yn ei chymeradwyo.

2.3 Cynlluniau Rhaglen a Phrosiect

Mae cynllunio priodol yn sicrhau y caiff elfennau allweddol o unrhyw raglen/prosiect eu hystyried ar y cam cynnar. Ni ddylai fod un dull cyffredin o reoli ac o ymdrin â dogfennaeth rheoli oherwydd y ceir amrywiadau ym maint neu arwyddocâd rhaglenni/prosiectau. Felly, dylai cynllunio rhaglenni a phrosiectau ddefnyddio templedi dogfennaeth rhaglen gorfforaethol a phrosiect priodol.

Cyfrifoldeb yr Uwch Berchnogion Cyfrifol a byrddau eu rhaglen yw llunio cynlluniau/dogfennaeth rhaglen briodol a cheisio lefel briodol o gymeradwyaeth yn unol â phhecyn cymorth y rhaglen gorfforaethol.

Rheolwyr prosiect penodedig sy'n gyfrifol am greu cynlluniau prosiect a dogfennaeth ofynnol arall.

Y Bwrdd Rheoli Rhaglenni Corfforaethol sy'n gyfrifol am ddwyn yr Uwch Berchenogion Cyfrifol a byrddau eu rhaglen i gyfrif am lunio cynlluniau priodol a dilyn gweithdrefnau cymeradwyo priodol.

Ar gyfer rhaglenni gweddnewid, dylai'r ddogfennaeth gynllunio nodi'n glir y canlyniadau dymunol a sut y bydd effaith y newidiadau yn cael ei monitro.

2.4 Cynlluniau Busnes Cyfarwyddiaeth

Cynlluniau busnes cyfarwyddiaeth yw'r cynlluniau gweithredu ar gyfer Cynllun Corfforaethol y Cyngor. Nhw yw'r peiriant ar gyfer llwyddiant. Mae pob cynllun yn amlinellu cyfraniad y gyfarwyddiaeth i gyflawni blaenoriaethau a chanlyniadau y Cyngor. Mae'n nodi cerrig milltir allweddol i gyflawni ymrwymadau y cyngor ac yn diffinio dangosyddion a thargedau perfformiad. Mae cynlluniau busnes cyfarwyddiaeth yn diffinio blaenoriaethau'r gyfarwyddiaeth wrth ddarparu ei gwasanaethau craidd hefyd.

Mae ein proses cynllunio busnes integredig yn rhoi'r cyfle i wneud penderfyniadau rhesymegol a chydlynol ar lefelau a'r mathau o ddarpariaethau a sut a ble i ddefnyddio adnoddau: cyllid, pobl, sgiliau ac asedau. Mae hefyd yn broses allweddol wrth asesu risgiau i gyflawniad a sut i reoli'r risgiau hynny.

Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'u timau rheoli cyfarwyddiaeth sy'n gyfrifol am ddatblygu eu cynlluniau busnes cyfarwyddiaeth. Caiff cynlluniau busnes cyfarwyddiaeth eu herio gan y Bwrdd Rheoli Corfforaethol, mae'r Pwyllgor Goruchwyllo a Chraffu Corfforaethol yn craffu arnynt, ac mae Aelod(au) Cabinet perthnasol a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn eu hardystio.

2.5 Cynlluniau Cyflawni Gwasanaeth a Grŵp

Mae cynlluniau cyflawni gwasanaeth a grip yn trosi amcanion y gyfarwyddiaeth yn dargedau gwasanaeth a gweithgarwch gweithredol, gan gysoni â materion cyllid, gweithlu a risg.

Penaethiaid Gwasanaethau a Rheolwyr Grwpiau sy'n gyfrifol am lunio eu cynlluniau cyflawni gwasanaeth a grip, yn ôl eu trefn.

2.6 Cynlluniau Unigol (Arfarniadau Staff)

Mae cynlluniau unigol (arfarniadau staff) yn trosi amcanion cynllun cyflawni gwasanaeth neu grip yn fesurau a thargedau gwaith ymarferol ar gyfer pob aelod o staff yn y Cyngor. Maent yn sicrhau bod gweithwyr yn deall eu cyfraniad a'u hatebolrwydd tuag at gyflawni gweledigaeth a blaenoriaethau y Cyngor.

Cynhelir arfarniad staff llawn ar gyfer pob aelod o staff yn flynyddol, yn unol â pholisi arfarnu staff y Cyngor.

Mae'n gyfrifoldeb ar y cyd rhwng y rheolwr llinell a'r aelod o staff i sicrhau y cynhelir yr arfarniad yn unol â pholisi'r Cyngor.

3. Gwneud – Gweithredu a Monitro Ein Cynlluniau

Mae cam ‘gwneud’ rheoli perfformiad yn ymwneud â chymryd camau a monitro perfformiad wrth gyflawni ein cynlluniau. Mae hefyd yn ymwneud â sicrhau bod systemau a phrosesau priodol ar waith i gefnogi cyflawniad ein cynlluniau a sicrhau ein bod yn defnyddio'r systemau a'r prosesau hyn yn effeithiol.

Mae monitro perfformiad parhaus yn hanfodol i gyflawni ein canlyniadau a gynlluniwyd, oherwydd ei fod yn caniatáu i gam(au) ymatebol gael eu cymryd ar unwaith ar bob lefel o'r Cyngor o ddydd i ddydd.

3.1 Y Cynllun Corfforaethol, Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Rhaglen Weddnewid

Cyfrifoldeb y Bwrdd Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet yw arwain gweithrediad a monitro cynnydd ein blaenoriaethau a'n canlyniadau corfforaethol ochr yn ochr â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Gyllideb Flynyddol. Maent hefyd yn gyfrifol am ymdrin â materion strategol a thrawsbynciol a risgiau corfforaethol sy'n dod i'r amlwg a allai atal y Cyngor rhag cyflawni ein canlyniadau a gynlluniwyd.

Mae aelodau etholedig yn chwarae rhan bwysig mewn monitro i ba raddau y mae'r Cyngor yn cyflawni ei flaenoriaethau. Dylent fod yn barod i herio swyddogion ynglŷn â pherfformiad gwasanaethau er mwyn sicrhau y cyflawnir blaenoriaethau ac y diwellir anghenion cymunedau lleol.

Mae Rhaglen Weddnewid y Cyngor yn tynnu ynghyd meysydd gweithgarwch trawsbynciol allweddol er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol trwy newid y modd y mae'r awdurdod yn gweithio. Yr Uwch Berchnogion Cyfrifol a'u byrddau rheoli rhaglen sy'n gyfrifol am gyflawni'r rhaglenni a'r prosiectau gweddnewid a gaiff eu neilltuo iddynt, a dim ond eithriadau a risgiau uchel a materion na allant eu datrys a gaiff eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd Rheoli Rhaglenni Corfforaethol.

Y Bwrdd Rheoli Rhaglenni Corfforaethol sy'n gyfrifol am oruchwylio gweithrediad y Rhaglen Weddnewid. Dylai'r Bwrdd Rheoli Rhaglenni Corfforaethol hefyd ystyried unrhyw adroddiadau eithriad a gaiff eu huwchgyfeirio mewn modd prydlon.

3.2 Cynlluniau Cyfarwyddiaeth/Gwasanaeth/Unigol

Y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'u Timau Rheoli Cyfarwyddiaeth sy'n gyfrifol am gyflawni eu cynlluniau busnes a monitro cynnydd. Maent hefyd yn gyfrifol am fonitro cyllidebau a risgiau yn barhaus. Pan fo angen, caiff cam(au) unioni eu rhaedru i'r Rheolwr Grŵp perthnasol, a fydd yn codi'r rhain yn eu cyfarfod tîm/unigol nesaf.

Cyfrifoldeb y Pennaeth Gwasanaeth/Rheolwr Grŵp perthnasol yw cyflawni cynlluniau gwasanaeth neu grŵp a monitro eu cynnydd. Neilltuir unrhyw gamau gofynnol a raeadrwyd o lefel Corfforaeth neu Gyfarwyddiaeth i'r timau/swyddogion perthnasol a fydd yn cymryd cyfrifoldeb drostynt. Gall unrhyw ddiffygion mewn perfformiad neu risgiau sylweddol a nodir yn ystod y broses fonitro neu drwy adborth gan staff neu gwsmeriaid, gael eu huwchgyfeirio i lefel y Gyfarwyddiaeth er mwyn galluogi gwneud penderfyniad unioni.

Cyfrifoldeb y staff yw cyflawni a monitro eu hamcanion unigol eu hunain o ddydd i ddydd, yn unol â'r hyn a gytunwyd yn yr arfarniadau staff. Dylid cynnal cyfarfodydd unigol rheolaidd rhwng staff a rheolwyr drwy gydol y flwyddyn hefyd. Mae hyn yn sicrhau bod staff rheng flaen yn gwybod yn union yr hyn y mae angen iddynt ei wneud, a'u bod yn gallu addasu eu cynllun gwaith pan fo angen ar sail y 'camau unioni' a raeadrwyd o lefel gorfforaethol, cyfarwyddiaeth neu wasanaeth.

4. Adolygu

Mae'r cam adolygu yn asesu pa un a ydym ar ein ffordd i gyflawni ein hamcanion a chyrraedd ein targedau ai peidio. Mae hefyd yn nodi cyfleoedd i wella. Mae'r cam hwn yn canolbwyntio ar werthuso, neu hunanasesu, yn hytrach na monitro.

4.1 Asesiad o Berfformiad Corfforaethol

Cynhelir Asesiad o Berfformiad Corfforaethol bob tri mis, mae Aelodau Cabinet, ac mae aelodau'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol a Phenaethiaid Gwasanaethau yn bresennol, a chaiff ei gefnogi gan y timau Cyllid a Pherfformiad Corfforaethol. Diben yr Asesiad o Berfformiad Corfforaethol yw:

- cael darlun cyfannol o berfformiad, effeithiolrwydd ac effaith y Cyngor;
- nodi ac archwilio materion a gorrariant trawsbynciol sy'n effeithio ar fwy nag un maes;
- herio meysydd perfformiad gwael yn feirniadol; a
- nodi cyfleoedd i wella gwasanaethau, risgiau i gyflawniad a goblygiadau o ran adnoddau.

Mae'r Asesiad o Berfformiad Corfforaethol yn canolbwyntio ar asesu'r cynnydd o ran cyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor, y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, risgiau allweddol a materion trawsbynciol a'u heffaith. Mae hefyd yn ystyried themâu strategol sy'n dod i'r amlwg ac yn cytuno ar gamau 'un cyngor'.

4.2 Proses Graffu y Pwyllgor(au) Goruchwylio a Chraffu

Mae Pwyllgor Goruchwylio a Chraffu Corfforaethol y Cyngor yn archwilio perfformiad y Cyngor ddwywaith y flwyddyn. Mae Tîm Perfformiad Corfforaethol y Cyngor yn cyflwyno gwybodaeth am berfformiad i'r Pwyllgor, fel y cytunir gan y Pwyllgor.

Yn ystod y flwyddyn, mae Pwyllgorau Pwnc Craffu yn craffu ar berfformiad cyfarwyddiaeth/gwasanaeth. Cyfrifoldeb tîm cymorth busnes y gyfarwyddiaeth yw paratoi gwybodaeth ofynnol am berfformiad ar gyfer y Pwyllgorau Pwnc.

4.3 Adolygu Rhaglenni a Phrosiectau

Adolygir rhaglenni a phrosiectau gweddnewid y Cyngor gan y byrddau rhaglen a thimau prosiect yn rheolaidd, yn unol â'r hyn y mae pob bwrdd yn ei benderfynu. Cyfrifoldeb rheolwr y prosiect a'r rhaglen yw darparu'r wybodaeth angenrheidiol am berfformiad ar gyfer yr adolygiad.

Mae'r Bwrdd Rheoli Rhaglen Corfforaethol yn gyfrifol am gynnal adolygiad bob tri mis o'r rhaglen weddnewid. Mae'r tîm gweddnewid corfforaethol yn gyfrifol am ddarparu'r holl wybodaeth angenrheidiol i sicrhau adolygiadau effeithiol.

4.4 Adolygu Perfformiad Cyfarwyddiaethau

Cynhelir adolygiad rheoli lled-strwythuredig ar lefel cyfarwyddiaeth ar ffurf cyfarfodydd Tîm Rheoli Cyfarwyddiaeth. Adroddir ar berfformiad o ran cyflawni cynlluniau busnes cyfarwyddiaeth a chraffir ar hyn mewn cyfarfodydd rheolaidd a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol a gefnogir gan y timau cymorth busnes cyfarwyddiaeth.

Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Rheolwyr Cyllid yw sicrhau adolygiad effeithiol ar lefel cyfarwyddiaeth. Mae'r timau cymorth busnes yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth gywir ac amserol am berfformiad ar gyfer adolygiad y gyfarwyddiaeth. Dylai risgiau strategol a gweithredol allweddol, materion gweithlu a materion rheoli asedau ffurfio rhan o'r adolygiad.

4.5 Adolygu Perfformiad Gwasanaethau/Grwpiau/Unigolion

Cynhelir adolygiad rheoli nad yw'n strwythuredig ar lefel gwasanaethau a grwpiau ar ffurf cyfarfodydd gwasanaeth neu grŵp. Pennaeth y Gwasanaeth a'i reolwyr sy'n gyfrifol am adolygu'n effeithiol ar lefel gwasanaeth neu grŵp. Mae'r timau cymorth busnes yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth gywir ac amserol.

Cyfarfodydd adolygu ffurfiol yw'r rhain rhwng unigolion a'u rheolwyr llinell. Mae rheolwyr a staff yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod arfarniadau staff a chyfarfodydd adolygu yn digwydd o fewn yr amserlen gorfforaethol.

5. Diwygio – Chwilio am Ddewisiadau o ran yr hyn y Gallai fod Angen ei Newid

Mae'r cam hwn yn ymwneud â dadansoddi a dysgu gwersi o'r wybodaeth yr ydym wedi'i chasglu yn ystod y cam 'adolygu' ac o ffynonellau amrywiol eraill, gan gynnwys adborth defnyddwyr gwasanaethau a chanfyddiadau arolygiadau ac archwiliadau allanol. Mae hefyd yn ymwneud â chwilio am ddewisiadau ar gyfer newid trwy ddadansoddi yr hyn sydd wedi gweithio ac nad yw wedi gweithio.

Ar sail ein dadansoddiad, gellir 'adolygu' ar unrhyw lefel o'r Cyngor, o flaenoriaethau corfforaethol hyd at amcanion personol unigolion. Gallai'r rhain gynnwys ailddosbarthu adnoddau, diwygio cynlluniau ac amserlenni, neu hyd yn oed diwygio ein hamcanion a'n blaenoriaethau yn y cylch cynllunio nesaf.

6. Cydweithredu a Chomisiynu

6.1 Gweithio gyda'n Partneriaid

Er mwyn cyflawni gweledigaeth gyffredinol y Fwrdeistref Sirol, mae angen i ni gydweithredu'n effeithiol â'n partneriaid i greu dull integredig o gyflawni canlyniadau i ddinasyddion.

Wrth ystyried gwaith partneriaeth, dylem ni sicrhau ein bod yn defnyddio'r un safonau perfformiad uchel er mwyn cyflawni ein canlyniadau a rennir. Mae hyn yn cynnwys pennu mesurau priodol i alluogi partneriaid a'r cyhoedd i farnu cynnydd a sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl bartneriaid.

6.2 Comisiynu

Mae gennym ni gyfrifoldeb i ddod o hyd i ffyrdd mwy effeithiol o gyflawni canlyniadau gwell i'n dinasyddion gydag arian y cyhoedd. Yn y sefyllfa ariannol sydd ohoni, ni fu hyn erioed yn bwysicach.

Comisiynu yw'r broses ar gyfer penderfynu ar sut i ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor er mwyn gwella canlyniadau yn y modd mwyaf effeithlon, effeithiol, teg a chynaliadwy.

Pan fo'r Cyngor yn dechrau gweithgarwch comisiynu, dylem ni sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad clir ar waith fel bod gan bawb ddirnadaeth gadarn o'r canlyniadau yr ydym ni'n dymuno eu cyflawni a sut y byddwn yn mesur llwyddiant. Dylai gwybodaeth am berfformiad fod wedi ei nodi yn y contract neu'r cytundeb lefel gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ofynnol er mwyn gwerthuso perfformiad a chanlyniadau a fwriedir.

Cysylltu

Cyfeiriad/Address: Y Tîm Perfformiad Corfforaethol
Perfformiad Corfforaethol, Partneriaethau a Gweddnewid
Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig | Stryd yr Angel | Pen-y-bont ar Ogwr | CF31 4WB

Ffôn/ Phone: (01656) 643224 | Ffôn testun / Text phone: 18001 01656 643224

E-bost/E-mail: improvement@bridgend.gov.uk

[Gwefan y Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr/Website of Bridgend County Borough Council](http://www.bridgend.gov.uk)